Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH PLANT A PHOBL IFANC:

# Swyddi, Sgiliau ac Addysg

## Gwella'r cynnig i bobl ifanc gael swyddi a sgiliau yn dilyn addysg ffurfiol.

Rydyn ni eisiau ymgysylltu â phartneriaid i ddeall cynlluniau i wella rhagolygon swyddi a sgiliau ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau perthnasol i ddeall rhwystrau a chyfleoedd.

Er bod hyn y tu allan i gylch gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, drwy gysylltu â phartneriaid, ein gobaith yw:

- Gwella opsiynau a hygyrchedd llwybrau i bobl dros 16 oed.
- Sicrhau bod gan bobl ifanc y contractau priodol yn eu lle i osgoi camfanteisio.
- Moderneiddio'r trefniadau rhanbarthol presennol ar gyfer derbyn cyngor gyrfaoedd.



"Mae angen dwy flynedd o brofiad arna i cyn fy niwrnod cyntaf. Rhwng gwaith cartref coleg a gwaith tŷ gartref alla i ddim dod o hyd i amser i gadw i fyny â'r cyfan."



### BETH SY'N BWYSIG I BLANT A PHOBL IFANC?

Hoffai pobl ifanc weld mwy o gyfleoedd i gael swyddi a phrentisiaethau er mwyn datblygu sgiliau a rhoi cynnig ar wahanol lwybrau gyrfa.

### DYWEDODD POBL

Dwi ddim yn gwybod beth dwi i eisiau ei wneud eto. Mae'n teimlo fel cynllunio fy mywyd cyfan. Dwi i eisiau'r cyfle i roi cynnig ar bethau heb aberthu fy holl amser sbâr."

### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweithio gyda phartneriaethau perthnasol i ddeall rhwystrau a rhaglenni gwaith sydd ar y gweill.

### PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Gall pobl ifanc ddatblygu sgiliau ar gyfer cael cyflogaeth hirdymor.